## Rhestr Gostau

<table>
<tr><th>Gwasanaeth</th><th>Maint y cais (ha)</th><th>Ffi ac eithrio TAW (£)</th><th>Disgrifiad o'r gwasanaeth</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Gwiriad Dilysu</td><td>0.01 - 1.0</td><td>55</td><td rowspan="2">Bydd hyn yn gwirio bod cais yn ddilys cyn iddo gael ei gyflwyno fel cais llawn.<br><br>Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud bod y cais yn annilys, bydd y gwasanaeth yma'n darparu crynodeb o'r hyn sy'n ofynnol fel bydd y cais sydd wedi'i gyflwyno yn un sydd wedi ei wneud mewn ffordd ddilys.<br><br>Bydd canlyniad y gwiriad dilysu yn cyrraedd yr ymgeisydd cyn pen dau ddiwrnod gwaith o ddyddiad y taliad.</td></tr>
<tr><td>>1.0</td><td>110</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Adolygiad o'r Strategaeth Cyn Ymgeisio</td><td>Annedd Sengl</td><td>110</td><td rowspan="5">Mae'r gwasanaeth yma i fod ar gyfer safleoedd lle mae'r dyluniad yn ei gam cynnar. Yn benodol, mae e ar gyfer adolygu uwchgynlluniau safleoedd mawr lle bydd gwaith yn cael ei wneud mewn sawl cam.<br><br>Bydd y gwasanaeth yma'n adolygu strategaeth ddraenio ond dydy e ddim ar gyfer adolygiad manwl o gyfrifiadau draeniad dŵr wyneb a dyluniad systemau draenio, h.y. manylion adeiladu.<br><br>Y canlyniad yw adroddiad cryno sy'n rhoi adolygiad o'r strategaeth ddraenio mewn perthynas â'r Safonau Cenedlaethol. Bydd hefyd yn cynnwys crynodeb o'r hyn sy'n ofynnol i'r cais fod yn ddilys yn y cam ymgeisio llawn.<br><br>Dydy cyfarfod ddim yn cael ei gynnal yn rhan o'r gwasanaeth ond mae modd gofyn amdano fel gwasanaeth ychwanegol. Gweler Gwasanaethau Ychwanegol isod.</td></tr>
<tr><td>0.01 - 0.5</td><td>218</td></tr>
<tr><td>>0.5 - 1.0</td><td>383</td></tr>
<tr><td>>1.0 - 5.0</td><td>656</td></tr>
<tr><td>>5.0</td><td>876</td></tr>
</table>

| Gwasanaeth | Maint y cais (ha) | Ffi ac eithrio TAW (£) | Disgrifiad o'r gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Manwl Cyn Ymgeisio** | Annedd Sengl | 165 | Bydd y gwasanaeth yma'n cynnwys adolygiad technegol o'r ffurflen cyn ymgeisio sydd wedi'i chyflwyno a'r dogfennau ategol. Bydd y gwasanaeth yn darparu adroddiad cryno sy'n dangos sut mae'r ceisiadau'n cydymffurfio â phob un o'r 6 Safon Genedlaethol.<br><br>Sylwch does dim modd i'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy roi adborth ar bob Safon Genedlaethol oni bai ein bod wedi derbyn gwybodaeth/dogfennau mewn perthynas â'r safon honno.<br><br>Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o'r hyn sy'n ofynnol er mwyn i'r cais fod yn ddilys erbyn iddo gael ei gyflwyno fel cais lawn.<br><br>Dydy cyfarfod ddim yn cael ei gynnal yn rhan o'r gwasanaeth ond mae modd gofyn amdano fel gwasanaeth ychwanegol. Gweler Gwasanaethau Ychwanegol isod. |
| | 0.01 - 0.5 | 273 | |
| | >0.5 - 1.0 | 602 | |
| | >1.0 - 5.0 | 985 | |
| | >5.0 | 1314 | |
| **Uwch Adolygiad Manwl Cyn Ymgeisio** | Annedd Sengl | 273 | Mae'r gwasanaeth yma'n cynnig cyfarfod rhithwir yn ychwanegol at y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n rhan o'r adolygiad manwl.<br><br>Yn dilyn y cyfarfod, bydd y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy yn cyhoeddi adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r cyfarfod a chydymffurfiad y ceisiadau â phob un o'r 6 Safon Genedlaethol.<br><br>Bydd dyddiad y cyfarfod yn amodol ar argaeledd swyddogion ond heb fod yn gynharach na phythefnos o ddyddiad talu'r ffi cyn ymgeisio.<br><br>* 1 awr ar y mwyaf a roddir ar gyfer pob cyfarfod. |
| | 0.01 - 0.5 | 438 | |
| | >0.5 - 1.0 | 767 | |
| | >1.0 - 5.0 | 1204 | |
| | >5.0 | 1588 | |

## Gwasanaethau Ychwanegol

| Gwasanaeth Ategol | Maint y cais (ha) | Ffi ac eithrio TAW (£) | Disgrifiad o'r gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Technegol** | Dd/B | 45/awr/Swyddog | Cost i'w godi bob awr am swyddog o'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy i fod yn bresennol mewn cyfarfod. |
| **Cyfarfod gyda Chofnodion** | <1.0 | 165 | Cyfarfod â swyddogion y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy mewn perthynas â'r ffurflen cyn ymgeisio a gyflwynwyd. Mae hyn yn berthnasol i'r holl wasanaethau cyn ymgeisio.<br><br>Does dim modd i'r cyfarfod fod yn hirach nac awr o hyd.<br><br>Mae modd i'r ymgeisydd ofyn i'r cyfarfod fod cyn neu ar ôl cyhoeddi adroddiad cyn ymgeisio cryno.<br><br>Bydd gan yr ymgeisydd opsiwn i ofyn am gyfarfod adeg cyflwyno'r ffurflen cyn ymgeisio.<br><br>Bydd cofnodion o'r trafodaethau'n cael eu gwneud yn ystod y cyfarfod yma. |
| | ≥1.0 | 274 | |
| **Ymweliad Safle** | 0.01 - 0.5 | 131 | Ymweliad safle / cyfarfod i ategu ffurflen cyn ymgeisio. 2 awr ar y mwyaf a roddir ar gyfer ymweliad safle.<br><br>Dyddiad ac amser yr ymweliad / cyfarfod i'w cytuno rhwng y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy a'r ymgeisydd ar ôl talu.<br><br>Yn dilyn y cyfarfod bydd llythyr yn cyflwyno dadansoddiad o'r drafodaeth a'r cyngor roedd y Corff Cymeradwyo wedi'i roi. |
| | >0.5 - 1.0 | 175 | |
| | >1.0 - 5.0 | 273 | |
| | >5.0 | 329 | |

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae pob ffi a restrir ac eithrio TAW. Codir TAW o 20% ar bob gwasanaeth dewisol.

### Gostyngiad

Lle bo gwasanaeth adolygu strategaeth wedi'i gyflwyno eisoes cyn cyflwyno adolygiad manwl a/neu adolygiad manwl lefel uwch, rhoddir gostyngiad o 25% i'r ffi ar gyfer adolygiad manwl a/neu adolygiad manwl lefel uwch dilynol lle mae'r cais yn ymwneud â ffin y safle, gwaith adeiladu a'r system ddraenio gysylltiedig.